| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN |
| **Dyddiad:** | 22 MEDI 2015 |
| **Teitl yr Adroddiad** | YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL A RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | YSTYRIED ARGYMHELLION SWYDDOGION YR YMDDIRIEDOLAETH A BYDD RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR O BRYD I'W GILYDD YN BERTHNASOL I GYFARFODYDD YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL |
| **Awdur:** | YSGRIFENNYDD YR YMDDIRIEDOLAETH |
| **Gweithredu:** | PENDERFYNU DERBYN YR ARGYMHELLIAD Y BYDD RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR O BRYD I'W GILYDD YN BERTHNASOL I GYFARFODYDD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL. |

1 Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ('yr Ymddiriedolaeth') yn 1990 a Chyngor Bwrdeistref Ynys Môn ('y Cyngor Bwrdeistref') oedd yr unig ymddiriedolwr ar y pryd. Yn y cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth ar 31 Gorffennaf 1990 ,penderfynodd yr ymddiriedolwr hwnnw y dylai rheolau sefydlog a rheolau trafodaeth y Cyngor Bwrdeistref fod yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth fel oedd yn briodol.

2 Ar adeg ad-drefnu llywodraeth leol ar 1 Ebrill 1996, olynwyd y Cyngor Bwrdeistref fel awdurdod lleol gan Gyngor Sir Ynys Môn ('y Cyngor Sir'). Y Cyngor Sir wedyn oedd unig ymddiriedolwr yr Ymddiriedolaeth.

3 Yn ei gyfarfod ar 2 Ebrill 1996, penderfynodd yr ymddiriedolwr fabwysiadu Rheolau Sefydlog y Cyngor Sir fel yr oeddent yn briodol i gynnal busnes yr Ymddiriedolaeth.

4 Ers 1996, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu'r Cyfansoddiad yn ei ffurf gyfredol sy'n cynnwys y Rheolau Gweithdrefn a Rheolau Mynediad i Wybodaeth fel gweithdrefnau sy'n cyfateb i reolau sefydlog ar gyfer cynnal busnes yng nghyfarfodydd y Cyngor Sir a'i Bwyllgorau. Fodd bynnag, yn dechnegol , mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu dan benderfyniad 1996 tra bo'r rheolau gweithdrefn wedi newid ers hynny.

5 O'r herwydd, er mai'r Cyngor Sir yw'r unig ymddiriedolwr o hyd, cynghorir y dylid penderfynu'n ffurfiol y dylid cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor a'i Bwyllgorau yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor Sir fel y maent yn bodoli ar y pryd. Bydd hyn yn sicrhau yn y dyfodol y bydd yr Ymddiriedolaeth yn rhedeg ei gyfarfodydd yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor Sir a fydd yn sicrhau'n awtomatig felly y gellir gwneud cyfrif am newidiadau yn y rheolau gweithdrefn hynny wrth gynnal busnes yr Ymddiriedolaeth.

6 <u>Argymhelliad</u>

6.1 Mae swyddogion yn argymell bod yr Ymddiriedolwr yn penderfynu fel a ganlyn:

Cyhyd ag y bydd y Cyngor Sir yn parhau i fod yr unig Ymddiriedolwr, bod pob cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth a'i Bwyllgorau yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor Sir sydd mewn grym ar y pryd ac eithrio lle byddai hynny'n anghyson gyda darpariaethau gweithred yr Ymddiriedolaeth fel y cafodd ei ddiwygio.